



Canllaw i
Reoli Taliadau Uniongyrchol
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai

www.sir-benfro.gov.uk



Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybod i chi am y cyfrifoldebau sydd gyda chi fel rhywun sy'n defnyddio taliad uniongyrchol ac yn dweud wrthy ch ble gellwch chi ddod o hyd i fwy o wybodaeth.

Mae gan y tîm taliadau uniongyrchol amrywiaeth o wybodaeth ar gael i'ch cefnogi wrth reoli'ch taliad uniongyrchol, gweler y manylion cyswllt ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Cyflogi a Rheoli'ch Cynorthwydd Personol (CP)

Mae cynorthwydd personol (CP) yn rhywun yr ydych yn ei gyflogi sy'n gallu'ch helpu i fyw'n annibynnol gartref. Chi sy'n gyfrifol am recriwtio a rheoli'ch CP, a bydd y tîm taliadau uniongyrchol yn rhoi cymorth a chynghor i chi yn ystod y broses yma.

Rhaid i chi fod â disgrifiad swydd a contract cyflogi wedi'i arwyddo gyda'ch CP. Mae angen y rhain i sicrhau eich bod yn cwrdd â'ch cyfrifoldebau fel cyflogwr.

Mae'r tîm taliadau uniongyrchol yn gallu darparu cofrestr o gynorthwywyr personol cymeradwy i'ch helpu i recriwtio os bydd angen. Maen nhw'n gallu eich helpu i gael at 'fanc' o gynorthwywyr personol sydd wedi'u hyfforddi ac sydd ar gael sy'n cwrdd â gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i lenwi bylchau pan fydd prinder staff, absenoldeb ac i gefnogi yn ystod y cyfnod recriwtio dros dro.

Os ydych yn cael problemau gyda'ch CP

Os ydych yn cael problemau o ran rheoli'ch CP dylech drafod hyn gyda'r tîm taliadau uniongyrchol.

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a thystlythyrau

Dylech gynnig swydd i'r CP ar yr amod eich bod yn derbyn tystlythyrau boddhaol a chofnodion DBS. 'Does dim angen tystlythyrau ar gyfer aelodau'r teulu ond mae cliriad DBS yn hanfodol. Fe'ch cynghorir yn gryf i sicrhau eich bod yn derbyn tystlythyrau'r CP cyn i chi eu penodi. Mae hyn er mwyn diogelu oedolion sy'n agored i niwed a phlant anabl.

Dylech drafod unrhyw faterion sy'n cael eu codi yn archwiliad y DBS gyda'ch rheolwr gofal, i sicrhau bod y CP yn ymgeisydd addas i ddarparu cymorth i chi i gwrdd â'ch anghenion.



Hyfforddi'ch CP

Os ydych yn cyflogi CP yna dylech ddarparu hyfforddiant priodol ar eu cyfer. Mae enghreifftiau o'r hyfforddiant y gallai eich CP fod â'i angen yn cynnwys:

- rhoi moddion
- codi a chario
- hylendid bwyd
- delio ag argyfyngau

Cysylltwch â'r tîm taliadau uniongyrchol am fwy o wybodaeth ynghylch hyfforddiant.

Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion

Mae'r modiwl hyfforddiant hwn ar gyfer pob oed ac fe'i cyflenwir trwy Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

- Os ydych yn oedolyn sy'n cyflogi CP, argymhellir eich bod yn trefnu hyfforddiant ar gyfer eich CP.
- Rhaid sicrhau bod unrhyw CP sy'n gweithio gyda phlentyn anabl wedi derbyn yr hyfforddiant hwn o fewn tri mis o ddechrau'r swydd.

Cysylltwch â'ch cynghorydd byw'n annibynnol ynglŷn â chofrestru eich CP ar y modiwl hyfforddiant diogelu hwn.

Asesu Risg

Ble mae'n briodol, fe ddylai'ch rheolwr gofal fod wedi cwblhau asesiad risg ynglŷn â'ch anghenion gofal yn barod, gofynnwch iddyn nhw rannu'r asesiad risg â chi.

Pan fyddwch chi'n dod yn gyflogwr rhaid i chi wneud asesiadau risg ar sut y mae'ch anghenion gofal yn cael eu cwrdd. Bydd eich cwmni yswiriant dewisedig ill dau yn eich cynorthwyo gyda hyn a gallant anfon ffurflenni asesu risg gwag a gwybodaeth ategol atoch, i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'ch cyfrifoldebau fel cyflogwr.

Cyflogi aelod o'r teulu

Ni chewch chi gyflogi aelod o'r teulu sy'n byw ar yr un aelwyd â chi fel CP, oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol.



Os yw eich CP yn wael, yn methu dod i weithio neu'n gadael eich cyflogaeth

Pan fyddwch yn ystyried cael taliad uniongyrchol fe ddylech fod wedi trafod sut i reoli absenoldeb y CP gyda'ch rheolwr gofal a'r tîm taliadau uniongyrchol, ac wedi cytuno cynllun wrth gefn.

Cadw cofnodion

Fel rhywun sy'n defnyddio'r gwasanaeth taliadau uniongyrchol a chyflogwr rhaid i chi gadw cofnodion cyfredol. Bydd y rhain yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Byddwch mewn perygl o gollu'ch taliadau uniongyrchol os caiff problemau eu canfod gyda'r cofnodion yr ydych yn eu cadw.

Cadw'ch ffeil yn gyfredol

Rhaid i chi sicrhau bod eich cofnodion yn gyfredol a'ch bod yn cadw'r canlynol:

- manylion cyflog y gweithwyr (cynorthwyyr personol) e.e. slipiau cyflog, taflenni amser, gwyliau, salwch
- rhestr gwariant
- yr holl daliadau i'r cyfrif taliad uniongyrchol e.e. llyfrau talu i mewn, slipiau BACS
- anfonebau a derbynebau e.e. gofal a brynwyd
- cyfriflenni banc
- treth ac yswiriant e.e. gwybodaeth Yswiriant Gwladol (NI) a Thalu Wrth Ennill (PAYE), yswiriant atebolrwydd cyflogwr

Cadw derbynebau, cyfriflenni banc a chofnodion cyflogi

Rhaid cadw'r cofnodion canlynol am gyfnod o saith mlynedd:

- cyfriflenni banc misol
- derbynebau am wariant a gafwyd
- os ydych yn cyflogi cynorthwyydd personol, cofnodion cyflogi, yn cynnwys:
 - manylion staff - enw a chyfeiriad, rhif yswiriant gwladol, dyddiad dechrau cyflogi a'r dyddiad y daeth y cyflogi i ben
 - manylion manwl gywir hawl i wyliau
 - cofnod o'r oriau a weithiwyd a'r cyflogau a dalwyd h.y. taflenni amser a slipiau cyflog
 - manylion taliadau i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) pensiynau



Treuliau

Fel cyflogwr mae'n rhaid i chi gyllidebu ar gyfer yswiriant gwladol, treth, pensiwn, tâl gwyliau a thâl salwch, yn ogystal â chyllidebu ar gyfer argyfyngau. Mae'r tîm taliadau uniongyrchol yn gallu'ch helpu i gyllidebu ar gyfer y canlynol:

- treuliau CP
 - taliadau mynediad (ar gyfer cynlluniau gofal gyda chymdeithasoli yn unig) e.e.
 - Cerdyn Sinema (gellwch gael gwybod mwy ar-lein o'r wefan hon: www.ceacard.co.uk)
 - mae canolfannau hamdden yn gallu cynnig disgownt i gynorthwyrwyr personol sy'n dod gyda chi
 - mae theatrau'n cynnig disgownt a/neu fynediad am ddim i rai digwyddiadau i gynorthwyrwyr personol.
- dillad / offer iechyd a diogelwch – os oes angen dillad neu offer diogelwch ar eich CP i wneud tasgau personol mae modd eu prynu trwy'r taliad uniongyrchol
- teithio (ar gyfer cynlluniau gofal gyda chymdeithasoli yn unig) – mae modd defnyddio'r taliad uniongyrchol i gyllidebu ar gyfer costau teithio'r CP fel tocynnau trên neu fws (ble nad yw cerdyn bws cydymaith yn berthnasol). Yr un modd, gellwch gyllidebu i dalu cyfradd a gytunwyd yn ôl y filltir

Os ydych yn cyllidebu ar gyfer treuliau rhaid i chi gadw cofnodion (e.e. derbynebaw, bonion tocynnau, neu slipiau cyflog eu gweithiwr i ddangos y milltiroedd).

Os ydych yn ei chael hi'n anodd cadw cofnodion

Os ydych yn cael trafferth o ran cadw'ch cofnodion yn gyfredol dylech drafod hyn gyda'r tîm taliadau uniongyrchol am help bob mis neu yn ôl yr angen.

Cyfrifon a Reolir

Os oes angen bod â chyfrif a reolir arnoch am nad ydych yn gallu agor cyfrif banc, bydd angen i chi gysylltu â'ch rheolwr gofal. Bydd eich rheolwr gofal yn galw heibio i adolygu'ch sefyllfa, ac yn eich cyfeirio at y tîm taliadau uniongyrchol i reoli'ch cyfrif os bydd angen. Os ar unrhyw adeg nad ydych yn gallu rheoli'ch Taliad Uniongyrchol, gellwch benodi Person Addas i weithredu ar eich rhan.



Person Addas

Os aseswyd bod angen gwasanaethau arnoch i gwrdd â'ch anghenion a'ch bod â diffyg gallu neu fod eich gallu'n gyfnewidiol, rhaid i Berson Addas weithredu ar eich rhan i reoli'r Taliad Uniongyrchol. Bydd holl reolau Taliadau Uniongyrchol yn berthnasol i Berson Addas. Bydd angen i'r Person Addas gael DBS (gweler yr adran ynghylch archwiliadau DBS)

Cyllid

Eich cyfrif banc

Rhaid i chi agor cyfrif cyfredol ar wahân mewn banc neu gymdeithas adeiladu i dderbyn y taliadau uniongyrchol cyn bod y Cyngor yn rhyddhau'r arian i chi.

Byddwch chi'n gyfrifol am unrhyw dreuliau banc sy'n codi o ganlyniad i'r ffaith eich bod wedi camreoli'r cyfrif taliadau uniongyrchol.

Bydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw dreuliau banc sy'n codi o ganlyniad i'w gweithredoedd nhw, e.e. taliad hwyr / taliad a gollwyd.

Rhaid i chi awdurdodi'r banc / gymdeithas adeiladu i ryddhau gwybodaeth i'r Cyngor ynglŷn â chynnwys y cyfrif a'r trafodion yn gysylltiedig â'r cyfrif.

Adolygiadau ariannol

Bydd y tîm taliadau uniongyrchol yn gwneud adolygiad rheolaidd o'r cofnodion yr ydych yn eu cadw.

Gordaliadau ac Ad-dalu

Dim ond i'ch cyfrif taliadau uniongyrchol y gall arian y mae'r Cyngor yn ei dalu i chi gael ei dalu. Os oes gordaliad yn cael ei wneud gan y Cyngor am unrhyw reswm, rhaid talu'r swm yma'n ôl i'r Cyngor. Os na chaiff y taliad ei ddychwelyd i'r Cyngor, fe allem gymryd camau i'w gael yn ôl. Os yw'r taliad uniongyrchol yn stopio am unrhyw reswm, bydd y Cyngor yn hawlio unrhyw arian sy'n weddill yn eich cyfrif banc taliadau uniongyrchol yn ôl wedi i chi dalu unrhyw arian sy'n ddyledus i'ch CP neu ddarparwr dan gontract.



Cyllid wrth gefn

Mae'r Cyngor yn mynnu eich bod yn creu ac yn dal 'cronfa wrth gefn' fel rhan o'ch pecyn taliadau uniongyrchol. Yna bydd gyda chi swm o arian ar wahân i gwrdd â thalu am ofal brys yn ogystal â thâl salwch eich CP. Pan fyddwch yn trefnu'ch pecyn taliadau uniongyrchol fe ddylech fod wedi penderfynu'n barod beth fyddwch yn ei wneud mewn argyfwng.

Pan fydd y tîm taliadau uniongyrchol yn archwilio'ch cofnodion byddant yn edrych a oes gyda chi gronfa wrth gefn a faint y mae'n ei gynnwys. Os yw'r gronfa'n fwy na'r hyn sy'n cyfateb i bedair wythnos o'ch taliadau uniongyrchol a 10% ar ben hynny, byddwn yn gofyn i chi dalu'r arian yma'n ôl i'r Cyngor.

Polisi codi tâl

Os ydych dros 18 ac yn derbyn taliadau uniongyrchol byddwch yn dod dan y polisi codi tâl. Mae gan y Cyngor daflen ffeithiau ynglŷn â chodi tâl y mae'ch rheolwr gofal yn gallu ei darparu ar eich cyfer, neu os oes gyda chi unrhyw ymholiadau penodol, cysylltwch â'r tîm taliadau uniongyrchol :

e-bost: directpayments@pembrokeshire.gov.uk

Ffôn : 01437 776590

www.sir-benfro.gov.uk/canllawiau-a-wybodaeth

Rhoi stop ar eich Taliad Uniongyrchol

Os nad ydych yn dymuno dal ati i gael taliad uniongyrchol, gellwch stopio trwy roi pedair wythnos o rybudd i'r Cyngor. Cyn i chi stopio bydd angen i chi siarad â:

- eich rheolwr gofal ynghylch sut y byddwch yn derbyn cymorth i gwrdd â'ch anghenion gofal dynodedig.
- y tîm taliadau uniongyrchol fel eich bod yn cwrdd â'ch gofynion cyfreithiol fel cyflogwr pan fyddwch yn terfynu contract eich CP.

Bydd y Cyngor yn rhoi pedair wythnos o rybudd i chi yn ysgrifenedig os ydynt yn mynd i stopio'ch taliadau uniongyrchol. Bydd eich rheolwr gofal yn sicrhau bod eich anghenion gofal yn cael eu cwrdd. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y Cyngor yn rhoi stop ar daliadau uniongyrchol heb roi rhybudd.



Newidiadau yn eich amgylchiadau

Os oes anhwylder arnoch ble mae'ch anghenion iechyd a / neu ofal cymdeithasol yn newid efallai y bydd angen mwy neu lai o gymorth arnoch. Os nad yw'r pecyn gofal cyfredol sydd gyda chi yn cyd-fynd bellach â'r hyn sydd ei angen arnoch cysylltwch â'ch rheolwr gofal.

Contractio gyda darparwr gofal

Efallai y byddwch ag eisiau contractio â sefydliad yn hytrach na chyflogi cynorthwydd personol i gwrdd â'ch anghenion asesedig. Rhaid i unrhyw sefydliad yr ydych yn ei gyflogi fod yn ddarparwr gofal cofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a chwrdd â safonau gofynnol cenedlaethol. Rhaid i chi fod â contract wedi'i arwyddo gyda'r darparwr yr ydych wedi'i ddewis a fydd yn amlinellu'r tasgau y byddant yn eu gwneud i chi er mwyn cwrdd â'ch anghenion asesedig. Cysylltwch â'r tîm taliadau uniongyrchol am gymorth gyda hyn.

Os byddwch yn dewis contractio gydag asiantaeth, gwnewch yn siŵr eich bod yn deall costau eu cymorth wrth yr awr.

Ychwanegu at eich cyfrif TALIAD UNIONGYRCHOL

Mae'r Cyngor yn talu cyfradd taliad uniongyrchol sefydlog wrth yr awr. Os ydych yn prynu gwasanaeth gan ddarparwr gofal mae'n debygol y byddant yn codi mwy arnoch yr awr am y gwasanaeth hwn na'r swm yr ydych yn ei dderbyn fel taliad uniongyrchol. Bydd rhaid i chi dalu unrhyw wahaniaeth o'ch arian eich hun.

Os aseswyd bod angen deg awr o gymorth arnoch yna bydd disgwyl i chi gcontractio am ddeg awr o ofal gan dalu'r gwahaniaeth rhwng y swm yr ydych yn ei dderbyn gan y Cyngor a'r swm sy'n cael ei godi.

Mwy o Wybodaeth

Os bydd eich amgylchiadau'n newid a bod angen mwy neu lai o ofal arnoch, eich bod yn cael eich derbyn i ysbyty neu'ch bod yn anfodlon ar eich taliad uniongyrchol a'ch bod ag eisiau'i newid neu'i stopio, rhaid i chi gysylltu â'ch rheolwr gofal neu'r tîm taliadau uniongyrchol.

Mae gan y tîm taliadau uniongyrchol daflenni gwybodaeth i'ch helpu ac maen nhw'n gallu rhoi cymorth i chi hefyd dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Mae'r tîm taliadau uniongyrchol



yma i'ch helpu i ddal i reoli a defnyddio'ch taliad uniongyrchol. Byddant yn cysylltu â chi a'ch rheolwr gofal os oes unrhyw broblemau ynghylch sut ydych yn rheoli'ch taliad uniongyrchol ar hyn o bryd. Gellwch gysylltu â nhw gan ddefnyddio'r wybodaeth isod:

Tîm Taliadau Uniongyrchol
Neuadd y Sir,
Hwlfordd,
Sir Benfro
SA61 1TP

e-bost: directpayments@pembrokeshire.gov.uk

Ffôn: 01437 776590

www.sir-benfro.gov.uk/talu-am-eich-gofal-a-ch-cefnogaeth/rheoli-eich-gofal-eich-hun-beth-yw-taliadau-uniongyrchol

This item is also available in English / Mae'r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd

I gael copi mewn print bras, fformat hawdd ei ddarllen, Braille, recordiad sain, neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar 01437 764551



Nodiadau

